



*Gofynnwch am:*

*Ffôn:*

*E-Bost:*

*Ein Cyf:*

*Eich Cyf:*

*Dyddiad:*

22 Mehefin 2020

### Annwyl Rieni/Gwarcheidiaid

Mae dros bythefnos wedi mynd heibio bellach ers fy llythyr diwethaf atoch ac roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y sefyllfa bresennol yn Abertawe. Fel y gwyddoch i gyd, mae ein hysgolion yn gwneud eu gorau glas i gynllunio ar gyfer dychwelyd dysgwyr yn ddiogel ar gyfer sesiynau ailgydio, dal i fyny a paratoi.

Bydd pob ysgol yn wahanol yn seiliedig ar lawer o ffactorau. Mae pob ysgol wedi bod yn cynnal asesiadau risg i'w helpu i nodi'r dull cywir yn ysgol eich plentyn. Fodd bynnag, rydym wedi cytuno ar nifer o egwyddorion allweddol gyda'n penaethiaid i sicrhau bod cysondeb lle bynnag y bo'n bosibl.

Rydym hefyd am bwysleisio na fydd y trefniadau yr ydym yn eu rhoi ar waith yn golygu dychwelyd i addysg ysgol ac ystafell ddosbarth fel yr ydym yn ei adnabod. Oherwydd y cyfyngiadau ar y niferoedd sy'n gallu mynychu ar unrhyw un adeg, bydd y dyddiau/sesiynau y gall eich plentyn eu mynychu yn gyfyngedig.

Bydd pob plentyn, lle y bo'n bosibl, yn cael cynnig ychydig o ymweliadau i'r ysgol yn ystod y cyfnod o nawr tair wythnos rhwng 29 Mehefin a 17 Gorffennaf. Bydd pob asesiad risg ysgol yn pennu pa mor aml y gall hyn ddigwydd.

Hoffem dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Diwrnod olaf y tymor ysgol hwn ar gyfer disgyblion yn ysgolion Abertawe fydd dydd Gwener 17 Gorffennaf fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd cytundeb cenedlaethol gyda'r undebau llafur ar gyfer yr wythnos ychwanegol a gynlluniwyd ac i sicrhau cysondeb ar draws ein hysgolion ac yn unol â nifer fawr o awdurdodau lleol eraill byddwn yn cau am yr haf ar 17 Gorffennaf.
- Yn unol a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, gofal plant yw ein prif flaenoriaeth o hyd a bydd y galw am ofal plant brys ym mhob ysgol yn dylanwadu ar eu gallu i ddarparu sesiynau ailgydio, dal i fyny a paratoi.
- Bydd gofal plant i'n gweithwyr allweddol yn cael ei gynnig rhwng 8:30am a 3:30pm ym mhob ysgol, 5 diwrnod yr wythnos. Gellir ymestyn yr oriau agor (os



oes angen) gyda cyfnodau byr o amser ar ddechrau a diwedd y dydd, er mwyn hwyluso amserau gollwng a chasglu. Cofiwch, dim ond plant gweithwyr allweddol a'n disgyblion mwyaf bregus all gael mynediad at y gofal plant hwn a dim ond fel dewis olaf.

- Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod efallai na fydd ysgolion (yn dilyn asesiad risg manwl) yn gallu cynnig cyfle i blant meithrin a derbyn i weld a dal i fyny cyn gwyliau'r haf.
- Lle bo'n bosibl, dylai rhieni a gofalwyr deithio gyda'u plant i'r ysgol ac yn ôl. Dylid cynnal pellhau cymdeithasol ar y daith i'r ysgol ac oddi yno.
- Mae Tîm Trafnidiaeth y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau gofal plant i benderfynu ar y galw am gludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion cymwys a bydd yn ceisio bodloni'r gofynion hyn.
- Bydd angen i bob plentyn ddod â'u pecyn cinio ei hun i'r ysgol, oni bai bod ysgol yn cynnig sesiynau hanner diwrnod lle nad oes angen cinio yn yr ysgol.
- Bydd pob plentyn yn cael ei annog i olchi ei ddwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr drwy gydol y dydd/sesiwn. Bydd hylif diheintio hefyd ar gael.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai pob disgybl ddod i gysylltiad â'u hathrawon dosbarth/dosbarthiadau blwyddyn ysgol presennol a nesaf pan fyddant yn mynychu eu hysgol. Mae'n bosibl y gallai'r cyswllt hwn fod ar-lein. Hefyd bydd cyfle o leiaf ar-lein i bontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Yn ogystal â glanhau'n drylwyr bob dydd, bydd proses "glanhau wrth fynd" yn cael ei defnyddio ym mhob ysgol i leihau'r risg o groeshalugi a thrawsyrro Covid-19.

Rydym yn gwybod y bydd gennych nifer o gwestiynau o hyd a all fod yn benodol i'ch plentyn chi neu ysgol eich plentyn. Byddwch yn dawel eich meddwl bydd ysgol eich plentyn yn rhoi llawer mwy o fanylion i chi rhwng nawr a 29 Mehefin ac mae ein cwestiynau cyffredin ni wedi cael eu diweddarau

<https://www.swansea.gov.uk/covid19schoolsandcolleges>. Edrychwch ar y rhain yn gyntaf. Os nad ydynt yn mynd i'r afael â'ch cwestiynau, cysylltwch ag ysgol eich plentyn neu gallwch anfon e-bost atom yn [coronavirusenquiries@swansea.gov.uk](mailto:coronavirusenquiries@swansea.gov.uk). Os hoffech siarad â rhywun mewn iaith heblaw am Gymraeg/Saesneg, anfonwch e-bost at [EMAU@swansea.gov.uk](mailto:EMAU@swansea.gov.uk) gyda'ch rhif ffôn ac enw'r iaith.

Diogelwch ein plant a'n staff yw ein prif flaenoriaeth o hyd ac ni fydd hyn yn newid. I'r rhai hynny sy'n teimlo nad yw'r amser yn iawn i'w plant fynychu'r ysgol, nid yw presenoldeb yn orfodol ac ni fydd rhieni/gofalwyr yn peryglu dirwyon. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

*N. S. Williams*

Nick Williams  
Cyfarwyddwr Addysg